Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC

Hysbysiad i Ganolfannau

Cyhoeddi canlyniadau o fis Tachwedd 2010 ymlaen

Cyflwyniad

Mewn blynyddoedd diweddar bydd swyddogion arholiadau wedi gweld bod mwy a mwy o bwyslais ar wasanaethau ar y we i ymdrin â holl agweddau gweinyddiaeth arholiadau, gyda chyrff dyfarnu'r CGC yn ychwanegu mwy a mwy o'r adnoddau hyn at eu safleoedd allrwyd. Datblygwyd teclynnau ar-lein, sydd i'w cyrchu trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu, ac mae'r rhain yn galluogi i'r canolfannau brosesu trefniadau mynediad, archebu papurau addasedig, creu amserlenni ar-lein addasedig a chalendrau dyddiadau allweddol.

Mae mwy a mwy o swyddogion y swyddfa arholiadau bellach yn defnyddio gwasanaethau ar y we i gyflawni tasgau gweinyddol yn gyflym ac yn rhwydd, gan olygu bod prosesau gweinyddu di-bapur a swyddfa arholiadau fwy effeithlon.

Rydym yn ymwybodol bod nifer sylweddol o ganolfannau eisoes yn defnyddio'u pecynnau MIS i gynhyrchu eu datganiadau canlyniadau eu hunain neu i gyrchu data arholiadau trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu, yn enwedig o gofio'r dadansoddiadau canlyniadau ar-lein bydd mwyafrif y cyrff dyfarnu'n awr yn eu darparu.

Oherwydd hyn, ac ar ôl ystyried yn ofalus, cytunodd cyrff dyfarnu'r CGC, i fod yn weithredol o gyfres TGAU Tachwedd 2010, y bydd y canlyniadau ond yn cael eu cyhoeddi i'r canolfannau ar ffurf electronig.

Pam rydym yn symud tuag at e-ganlyniadau a sut mae'r canolfannau a'r ymgeiswyr yn elwa o hynny?

Gwybodaeth amser real am y canlyniadau

- **'Ciplun' pythefnos oed o wybodaeth rheoli a chanlyniadau ymgeiswyr yw'r system copi caled bresennol. Mae'r rhain yn ddata a allai newid cyn dyddiad rhyddhau'r canlyniadau ac yn aml bydd angen eu diweddaru ar ôl yr adeg hon oherwydd defnydd cynyddol y gwasanaeth ardystio hwyr.**

- **mae e-ganlyniadau'n gyswllt mwy dynamig â data'r cyrff dyfarnu ac felly'n ffordd llawer fwy effeithiol o gwrdd â gofynion yr amgylchedd asesu unedol, modern.**

Llai o weinyddiaeth i swyddogion arholiadau

- **Mae cyfran fawr o'r canolfannau'n elwa eisoes o ddefnyddio systemau electronig i gynhyrchu slipiau canlyniadau cyfansawdd cyffredin, sy'n dangos y canlyniadau a gyhoeddir gan yr holl gyrff dyfarnu. Mae hyn felly'n lleihau'r angen i goladu'r wybodaeth â llaw gan yr holl gyrff dyfarnu.**

- **Nid oes angen rheoli diweddariadau canlyniadau copi caled sy'n parhau i ddod gan y cyrff dyfarnu.**

Manteision clir i'r ymgeiswyr

- **Bydd y rhan fwyaf o ganolfannau'n gallu darparu un datganiad o ganlyniadau cyfansawdd, sy'n dangos y canlyniadau a gyhoeddwyd gan y cyrff dyfarnu i gyd.**

- **Bydd yn bosibl i'r holl ganolfannau gyfnewid ar unwaith unrhyw ddatganiadau o ganlyniadau sydd ar goll neu wedi'u difrodi neu i ddarparu datganiad o ganlyniadau wedi'i ddiweddaru.**

Hyblygrwydd o ran cyhoeddi'r canlyniadau

- **Cyfyngir ar y system gyfredol o gopïau caled gan fod angen argraffu, coladu a danfon canlyniadau.**

- **bydd e-ganlyniadau'n caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran cyhoeddi'r canlyniadau. Yn draddodiadol cyhoeddwyd canlyniadau i'r ymgeiswyr ar ddydd Iau. Bydd y cyrff dyfarnu'r ystyried yr hyn sydd well gan y canolfannau o ran ar ba ddiwrnod yr wythnos y dylid rhyddhau'r canlyniadau.**

Technoleg newydd – bydd gwell data canlyniadau i'w cael trwy well safleoedd allrwyd

- **Y cyfleuster i ddyblygu data canlyniadau copi caled sy'n bodoli, lle y dymunir gwneud hynny.**

- **Mae pob corff dyfarnu wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi'n sylweddol yn eu safleoedd allrwyd.**

Mae'n ffordd fwy gwyrdd o wneud pethau gan leihau'r ôl-troed carbon

- **Bydd llawer llai o bapur yn cael ei gludo.**
- **Bydd llai o bapur yn cael ei ddefnyddio, gan fod y canolfannau'n cael dewis yr hyn maent am ei argraffu.**

Pa bryderon mae'r canolfannau wedi'u mynegi wrthym?

Mae'r cyrff dyfarnu'n trosglwyddo'r costau i'r canolfannau

Bydd unrhyw arbedion ar ran y cyrff dyfarnu'n cael eu buddsoddi mewn system EDI newydd i'r 21ain ganrif, bydd safleoedd allrwyd yn parhau i gael eu gwella a bydd technoleg yn cael ei defnyddio i gefnogi mentrau e-asesu ac e-brosesu ymhellach.

Bydd angen mwy o weinyddu yn y canolfannau

Ni fydd angen mwyach i'r rhan fwyaf o'r canolfannau reoli copïau caled o'r datganiadau canlyniadau gan gyrff dyfarnu lluosog – bydd e-ganlyniadau'n system llawer llai cymhleth i drin canlyniadau.
Yn wir dangosodd ymchwil yn ddiweddar bod oddeutu 86% o'r canolfannau eisoes yn defnyddio'u pecyn MIS i gynhyrchu un datganiad o ganlyniadau cyfun.

Mae angen i'r ymgeiswyr gynhyrchu datganiadau o ganlyniadau swyddogol y cyrff dyfarnu wrth ymrestru mewn coleg Chweched Dosbarth neu Goleg AB

Gan na fydd datganiadau o ganlyniadau swyddogol y cyrff dyfarnu ar gael mwyach o fis Tachwedd 2010, bydd y colegau'n dod i arfer gweld canlyniadau wedi'u cymeradwyo gan y canolfannau, e.e. canlyniadau wedi'u hargraffu ar bapur pennawd y ganolfan a/neu wedi'u stampio. Os oes amheuaeth, unwaith y cyhoeddir y tystysgrifau gellir gofyn amdanynt gan yr ymgeisydd.

Beth os yw cysylltiad rhyngrwyd fy nghanolfan yn methu?

Os bydd angen, gellir cyrchu safle allrwyd corff dyfarnu o leoliad diogel arall, e.e. swyddfa'r Awdurdod Lleol. Anfonir y canlyniadau trwy fwy nag un dull electronig – trwy safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu ac EDI, felly bydd gan y canolfannau gyfrwng wrth gefn. Yn ogystal, mae gan y cyrff dyfarnu drefniadau wrth gefn yn eu lle os nad yw'r rhan fwyaf o'r dewisiadau confensiynol ar gael.